

## Lleuwen Steffan – casglu ac ailrecordio emynau gwerin Cymraeg

Bu digwyddiad unigryw yn yr Hen Gapel, Pencader, brynhawn Llun, 21 Awst, drwy gydweithrediad Coda Ni, elusen Gristnogol ym Mhencader, a Plethu, prosiect celfyddydol Cymraeg yn Llandysul. Rhoddwyd llwyfan i'r cerddor adnabyddus Lleuwen Steffan i gyflwyno emynau gwerin Cymraeg a chwrrd â Marie, y bu ei thad mor bwysig o ran cadw'r emynau.

Mae Lleuwen wedi bod yn byw yn Llydaw ers deuddeg mlynedd gyda'i dau blentyn. Ond wrth deithio i Gymru i berfformio, bu'n ymweld ag archif sain Sain Ffagan yn ei hamser sbâr i chwilota drwy hen recordiadau o bobl yn sôn am hen emynau gwerin sydd ddim yn ymddangos bellach yn y mwyafrif o gasgliadau. Mae'n teimlo mai Duw sydd wedi rhoi'r gwaith yma ar ei chalon. Bu hefyd yn teithio i sgwrsio â disgynyddion y bobol y bu'n gwranddo arnynt. Dyma eiriau Lleuwen cyn y digwyddiad:

'Un o'r pethau dw i'n mwynhau am yr antur gerddorol hon yw cysylltu, cwrrd a chwarae fy nghyfansoddiadau newydd i ddisgynyddion casglwyr yr emynau llafar gwlad. Dw i wedi cael caniatâd Sain Ffagan a'r Llyfrgell Genedlaethol i ddefnyddio rhannau penodol o'r archif sain yn fy nghyfansoddiadau, a diolch iddynt am hynny. Ond mae caniatâd y disgynyddion yn allweddol wrth imi baratoi ar gyfer y camau nesaf.


'Yn ystod y blynyddoedd o weithio ar hwn, dw i wedi cwrrd â dynes 93 oed yn clywed llais ei hen nain am y tro cyntaf. Dw i wedi cael cyfle i gwrdd â disgynyddion oedd ddim yn gwybod am fodolaeth recordiadau lleisiol eu cyn-dadau. Pob un, hyd yma, yn awyddus i siarad am eu hanwyliaid.'

Ers rhai blynyddoedd bu Lleuwen yn awyddus i ddod i Bencader i sgwrsio ag un o'r disgynyddion. Wrth iddi ddod i weithio ar brosiect celfyddydol Plethu yn yr un ardal, fe drefnwyd iddi gwrdd â'r teulu gyda chynulleidfarn bresennol hefyd fel bod modd iddi sôn am ei gwaith a chael ymateb.

Wrth i Lleuwen baratoi i ryddhau'r cynhyrchiad cerddorol a gweledol yng Ngŵyl Ryng-Geltaidd Lorient a'r Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf, roedd yn bwysig iddi hi'n bersonol i rannu peth o'r gwaith gyda disgynyddion David Griffiths, yn enwedig ei ferch Marie, sy'n byw gyda'i gŵr, Gwynfor, ym Mhencader. Mae'r ddau wedi bod yn rhan o elusen Coda Ni ers ei chreu. Dyma eiriau Lleuwen eto:

'Un o'r lleisiau mwyaf nodedig wrth drafod yr emynau llafar gwlad yw David Griffiths (1910–95) o Llanfynydd a Chapel Isaac. Emynau oedd diddordeb mawr ei fywyd. Yn ei gof a'i nodiadau roedd degau ar ddegau o benillion o emynau sydd ddim yn y casgliadau enwadol swyddogol. Heb ei gasgliad o'r emynau llafar gwlad, fasa'r gwaith newydd ddim yn bod. Dw i mor ddiolchgar iddo gofio a chasglu cymaint ohonynt.'

Roedd Marie, Gwynfor a'u merch Mwynwen, a oedd hefyd yn bresennol, wrth eu bodd gyda'r gerddoriaeth newydd. Mae Lleuwen wedi gwranddo ar ddegau o oriau o sain i ddewis darnau y mae'n teimlo sy'n dal ysbryd yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Yn ystod y Clo Mawr bu Lleuwen yn dysgu cynhyrchu cerddoriaeth



ei hunan gyda'r artist cerddorol Ed Holden. Mae wedi defnyddio'r sgiliau newydd yma i greu darnau o gerddoriaeth epig sy'n cyfuno lleisiau o recordiau Sain Ffagan â llinynnau cyfoethog a llais periaidd Lleuwen yn gweu mewn a mas drwy'r cyfan.

Disgrifiodd Ffred Ffransis, cydlynnydd Coda Ni, y gerddoriaeth fel 'Fusion dros y cenedlaethau, yn pontio diwyllianau #yrunffydd'.

Dyma ddisgrifiad Siân ap Gwynfor o'r digwyddiad; mae hi hefyd yn weithgar iawn gydag elusen Coda Ni ac yn byw yn Llandysul: 'Profiad gwefreiddiol i mi oedd cael bod yn yr Hen Gapel, Pencader, pawns 'ma yn gwranddo ar gyflwyniad unigryw Lleuwen Steffan ... person arbennig a thalentog tu hwnt ond o mor ddiymhongar a diffws. Pleser pur oedd cael bod yno.'

Bydd Lleuwen 'nôl yn Llandysul ganol Medi ar gyfer dathlu Dydd Owain Glyndŵr (16 Medi) ym Mharc Llandysul. Mae hi'n cydweithio ar gynhyrchiad Plethu o'r enw Ffair Elen i dathlu bod Elen, mam Glyndŵr, wedi ei geni a'i magu yn Llandysul.

Gellir darganfod mwy am y gwaith casglu a recordio hen emynau gwerin wrth ddilyn @LleuwenSteffan ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Mae Coda Ni a Plethu hefyd ar Facebook ac Instagram, neu gellir cysylltu â Coda Ni ar 01559 384378 a Plethu ar 07966014348.

Lleucu Meinir

# Dathlwch Roddion Duw ar Ddydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd, 17 Medi 2023



Mae Through the Roof, elusen Gristnogol sy'n ymgyrchu dros bobl ag anabledd, yn cynnig adnoddau am ddim ar gyfer Sul Ymwybyddiaeth Anabledd ar 17 Medi 2023 (neu ddiwrnod o'ch dewis chi). Gwahoddir pob eglwys i ddathlu'r rhoddion unigryw y mae Duw yn eu rhoi i bob un ohonom – gan gynnwys pobl anabl.

Dilynwch y ddolen hon i ofyn am becyn adnoddau rhad ac am ddim (yn Saesneg): <https://throughtheroof.org/forchurches/disability-awareness-sunday/>

Mae gan oddeutu 20% o boblogaeth y Deyrnas Unedig anabledd (Arolwg o Adnoddau Teuluol, 2021). Ac eto, nid yw ein heglwys bob amser yn adlewyrchu'r ganran honno, yn enwedig o ran arweinwyr ac eraill sydd â chyfrifoldeb am waith yr eglwys. Rydyn ni i gyd yn cael ein 'gwneud yn ofnadwy a rhyfeddol' gan Dduw ac rydyn ni'n 'bob rhan o gorff Crist'.

**A yw eich eglwys neu'ch cymuned Gristnogol yn cynnwys pobl anabl yn ei gweinidogaeth?**

– trwy alluogi rhoddion a thalentau pobl anabl a roddwyd gan Dduw i gael eu rhannu ag eraill.

**Gallwch ddefnyddio Dydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd fel neges gadarnhaol i bobl anabl.**

Rydym yn gwahodd pob cynulleidfia eglwysig i ddathlu pobl anabl ac i ddefnyddio'r adnoddau rhad ac am ddim a gynhyrchwyd gennym i gynnal gwasanaeth neu ddigwyddiad Dydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd 2023.

Mae dwy set o adnoddau Saesneg ar gyfer y Sul ar gael am ddim:

- Ar gyfer eich digwyddiad cyntaf:** rydym yn argymhell defnyddio pecyn adnoddau llawn 2022, yn seiliedig ar Luc 5 am y dyn â'r parlys yn mynd trwy'r to, gydag awgrymiadau ar gyfer gwasanaeth cyflawn ac wyth fideo.
- Am ddigwyddiad pellach:** defnyddiwch adnodd newydd 2023 ar 'Y rhoddion unigryw y mae Duw yn eu rhoi i ni', gydag amlinelliad o'r gwasanaeth a fideo byr o Ashleigh, hyrwyddwr anabledd Roofbreaker sy'n goresgyn rhwystrau.

Mae Ashleigh yn enghraifft wych o berson anabl yn defnyddio'i doniau i wasanaethu yn yr eglwys, wrth iddi helpu i arwain

Rhwydwaith Roofbreaker Caeredin. Yn y fideo, mae Ashleigh yn rhannu ei neges ysbrydoledig: 'ei bod mor bwysig defnyddio'r rhoddion y mae Duw wedi'u rhoi i chi fel chi – nid fel y person rydych chi'n meddwl y mae angen i chi fod'.

Meddai Katie Mobbs, Arweinydd Tim Roofbreaker Through the Roof, sy'n defnyddio cadair olwyn. 'Mae eglwys heb bobl anabl yn eglwys anghyflawn. Mae angen pobl anabl arnom – yn enwedig fel arweinwyr – oherwydd eu bod yn gwybod beth sydd ei angen i wneud y llwybr yn glir i ragor o bobl anabl; mae llawer hefyd i'w ennill gan yr eglwys gyfan.' Ymunwch â ni i godi ymwybyddiaeth drwy gynnal gwasanaeth neu ddigwyddiad Dydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd eleni, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r rhoddion a'r doniau y mae Duw yn eu rhoi i bobl anabl.

**Cewch fynediad at yr adnoddau Saesneg, rhad ac am ddim yma,** gan gynnwys cardiau post Ymwybyddiaeth Anabledd i'w harchebu ar gyfer eich digwyddiad.

Elusen Gristnogol sy'n ymgyrchu ar ran pobl ag anabledd yw Through the Roof. Daw'r enw o'r hanes yn Efengyl Luc, pennod 5. Ein cenhadaeth yw trawsnewid bywydau trwy Iesu gyda phobl anabl. Gwnawn hyn drwy dair elfen wahanol ond cydgysylltiedig:

- Galluogi Ffydd:** Arfogi eglwysig a'n Roofbreakers (hyrwyddwyr anabledd lleol) i alluogi pobl anabl i gyfranogi a pherthyn i fywyd Cristnogol.
- Dod â Rhyddid:** Mae'r prosiect 'Wheels for the World' yn darparu cadeiriau olwyn a Beiblau i bobl anabl mewn gwledydd sy'n datblygu.
- Rhannu Cymdeithas:** Mae ein gwyliau hygyrch ac encilion, sydd â ffocws Cristnogol iddynt, yn dod â hwyl a chyfeillgarwch i bawb.

**Manylion cysylltu:**

E-bost (Katie, Cydlynnydd Cymru): [katie@throughtheroof.org](mailto:katie@throughtheroof.org)  
Ffôn (Katie, Cydlynnydd Cymru): 07857 896 592

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.throughtheroof.org](http://www.throughtheroof.org) neu @TTRChangesLives ar y cyfryngau cymdeithasol.



## Un funud fach ...



Llun: Tim Marshall, Unsplash

### Gwahanol rannau

Braf oedd dathlu gyda'n pobl ifanc yn ystod yr haf wrth iddynt lwyddo yn eu harholiadau ysgol. Gwelom lu o luniau ar y cyfryngau cymdeithasol wrth iddynt dderbyn canlyniadau fel 'A seren' haeddiannol am eu holl waith caled. A dros yr wythnosau diwethaf, gwelsom hysbysebion 'nôl i'r ysgol' ar y teledu – bron yn syth ar ôl i'r ysgol gau am yr haf.

Mae athrawon a phlant wedi bod yn paratoi'n frwd i fynd yn ôl drwy ddrysau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn newydd drwy brynu sgidiau, gwisg ysgol ac wrth gwrs fy ffefryn, deunydd ysgrifennu.

Ond dw i am gymryd un funud fach i feddwl am y rhai sydd ddim wedi derbyn canlyniadau cystal, sydd ddim wedi llwyddo yn yr un modd â'u cyfoedion, sydd ddim yn teimlo'r un cyffro i fwrw ati gyda'u gwaith ysgol. Fel cynorthwydd dosbarth mewn ysgol gynradd fe wnes i helpu llawer o blant tebyg i hyn: pobl ifanc oedd yn gweld y gwaith yn anodd, darllen llyfr yn heriol ac, yn syml, yn teimlo'n ddihyder bob dydd. Un ffordd mae staff yr ysgolion yn helpu yw drwy ddangos i blant fod ganddynt rôl yn yr ysgol ac mewn cymdeithas – pa lefel bynnag o addysg maent yn ei chyrraedd, fod yna le iddyn nhw, bod ganddynt rhywbeth gwerthfawr i'w gyfrannu. Y peth sydd yn bwysig i'w gofio yw hyn – fod gan bawb doniau: dawn gerddorol, greadigol, dawn i bregethu, efengylu, dawn i ofalu neu dysgu. Dywedodd Paul wrth bobl Corinth yn ei lythyr cyntaf: beth bynnag yw'r ddawn sydd gyda chi sydd yn rhodd gan Dduw, defnyddiwch hi. Peidiwch â'i gwastraffu.

Ond beth os nad ydym wedi cael y cyfle i adnabod ein doniau, ac yn ofni rhoi cynnig ar bethau newydd? Dyna ble mae'n rhaid i ni fel Cristnogon, fel eglwysi, fod yn barod i'w helpu. Mae rhaid i ni annog pobl i fentro, a bod yna os ydyn nhw'n methu, a'u hannog i fynd amdani eto.

Dros y blynyddoedd mae ein cynulleidfaoedd wedi bod yn fwy na hapus i eistedd yn y cefn, a theimlo nad oes ganddyn nhw ddim i'w gynnig i fywyd ein heglwysi. Ac mae'r rhai ohonom sydd mewn rôl arweiniol wedi bod yn amharod i'w gwthio nhw. Ond os credwn ni eiriau Paul, os deallwn fod gan bawb gyfraniad i'w wneud, mae'n gyfrifoldeb arnom i ddod o hyd i'w doniau. Beth am ofyn iddynt fod ar y tîm croesawu, gosod blodau ambell Sul, helpu gyda'r pwerbwynt, darllen neu hyd yn oed rannu myfyrdod? Agor man diogel iddyn nhw i fethu ac i lwyddo. Agor man diogel iddyn nhw a gadael iddyn nhw deimlo'u bod nhw'n rhan o gymuned.

Nawr, gallaf ddychmygu bod rhai'n teimlo nad oes gennych chi neb yn eich capel sy'n barod i helpu, ac efallai'n teimlo fod yn rhaid i chi wneud popeth – ac efallai fod hyn yn wir i rai. Ond ydych chi wedi gofyn am gymorth? Ydych chi wedi mentro? Cofiwch eiriau Paul: 'Mae angen llawer o wahanol rannau i wneud un corff.' Gofynnwch, mentrwch, byddwch yn barod i fethu, ac efallai dewch chi o hyd i 'A seren' annisgwyl yn eich capel.

Sian Elin Thomas

# Cofio 75 mlynedd ers sefydlu Cyngor Eglwysi'r Byd a chyhoeddi'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol



Mewn cyfarfod o Gyngor Eglwysi'r Byd yn Geneva ym mis Mehefin eleni, cafwyd cyfle i fyfyrion a chofio sefydlu'r Cyngor ym mis Awst 1948 yn ogystal â'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1948, ac arwyddocâd y ddau beth hyn inni fel eglwysi heddiw.

**Yna dywedodd Duw, 'Gadewch inni wneud pobl yn ddelw ohonon ni'n hunain, i fod yn debyg i ni' Genesis 1:26 (B.net).**

Ychydig fisoedd ar ôl cynnal y cynulliad a sefydlodd Gyngor Eglwysi'r Byd yn Amsterdam ym mis Awst 1948, mabwysiadwyd Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym Mharis ar 10 Rhagfyr 1948 'fel safon gyffredin i'w chyflawni gan yr holl bobloedd a phob cenedl'. Cyfrannodd Comisiwn yr Eglwysi ar Faterion Rhyngwladol, a grëwyd ym 1946 i baratoi at sefydlu Cyngor Eglwysi'r Byd, yn uniongyrchol at ddrafftio'r Datganiad hwn, yn enwedig Erthygl 18 ar ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd. Roedd mabwysiadu'r Datganiad Cyffredinol a sefydlu Cyngor Eglwysi'r Byd, mewn gwahanol ffyrdd ac i wahanol raddau, yn ffyrdd o ymateb i'r erchyllterau a gyflawnwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a chydabod yr angen am undod a chydweithrediad rhyngwladol ar gyfer urddas dynol. Fel pobl ffydd, rydym yn cydnabod delwedd Duw'r Creawdwr ym mhob bod dynol fel sylfaen ein hymwneud ag urddas a hawliau dynol.

Eleni, wrth inni nodi 75 mlynedd ers sefydlu Cyngor Eglwysi'r Byd a chyhoeddi'r Datganiad Cyffredinol, mae pwyllgor canolog y Cyngor yn cydnabod y gwerthoedd a rennir ac sy'n sail i'r ddau beth. Yr un pryd, rydym yn cydnabod y ffyrdd a'r manau niferus lle mae rhodd Duw o urddas dynol yn cael ei bygwth a'i pheryglu. Gwelwyd rhyddid yn cael ei ormesu mewn modd cynyddol awdurdodol, yn ogystal â gwrthdaro, meddiannaeth a dadleoli gorfodol. Ceir enghreifftiau o wahaniaethu a rhagfarn, erledigaeth, anghydraddoldeb economaidd rhemp a thlodi eithafol parhaus. Cynyddodd eithafiaeth



Eleanor Roosevelt yn dal copi o'r Datganiad o Hawliau Dynol yn 1949



dreisgar, rhennir gwybodaeth fwriadol anghywir ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â geiriau casineb. Camddefnyddir deallusrwydd artiffisial a thechnolegau newydd eraill, a phrofir newid hinsawdd y mae gweithgaredd dynol yn sail iddo, a diffyg cyfiawnder hinsawdd.

Cydnabyddwn y datblygiadau niferus mewn safonau cyffredinol a phob trefn sy'n amddiffyn hawliau dynol ers mabwysiadu'r Datganiad. Er hynny, rydym yn cydnabod y bygythiadau difrifol a ysgogir gan genedlaetholdeb poblogaidd ac awdurdodaeth gynyddol i'r 'safon gyffredin i'w chyflawni' a gynhwysir yn y Datganiad Cyffredinol a'r cyfreithiau rhyngwladol ar hawliau dynol a ddeilliodd ohono.

Cofiw'n y prosesau a'r trafodaethau pwysig a arweiniodd at 11eg Cynulliad Cyngor Eglwysi'r Byd ar y berthynas rhwng egwyddorion y ffydd Gristnogol a chyfraith ryngwladol ar hawliau dynol. Ac rydym yn cadarnhau'r datganiad ar 'Dystiolaeth a Gweithredu Cristnogol dros Urddas Dynol a Hawliau Dynol' a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi'r Byd ym mis Tachwedd 2022.

Gan ddilyn y pwyllgor gwaith, rydym yn cydnabod galwad y proffwydi ar i bobl gyfamodol Duw weithio dros gyfiawnder a heddwch, gofalu am y tlawd, yr alltud, a'r rhai sydd ar y cyrion, a bod yn oleuni i'r cenhedloedd (Micha 6:8; Esea 49:6). Cydnabyddwn yr alwad i fywyd o ffydd sy'n ymgorffori esiampl Crist, gan gadarnhau urddas a gwerth pawb, waeth beth fo'u hil, eu rhyw, eu dosbarth, eu crefydd neu unrhyw nodwedd arall.

Felly, yn y flwyddyn hon o gofio'r 75 mlwyddiant, mae'r pwyllgor canolog yn gwahodd yr holl eglwysi sy'n aelodau o Gyngor Eglwysi'r Byd a'i bartneriaid eciwmenaidd i wneud y canlynol:

- Myfyrion ar hanes a'r dibenion cyffredin y mae'r Cyngor a'r Datganiad yn eu rhannu;
- Cydnabod ein cyfrifoldeb arbennig fel cymunedau ffydd sy'n gweld delw Duw ym mhob person i adnewyddu ein hymrwymiad i sicrhau urddas a hawliau dynol i bawb yn ddiwahân;
- Ailymrwymo i ymateb mewn modd tosturiol, ymarferol a gweithgar i leisiau, cri a phrofiadau byw'r menywod, y plant a'r dynion y mae eu hurddas a'u hawliau dynol wedi eu tramgwyddo;
- Ymgysylltu â'r Cyngor a thrwyddo mewn deialog ar y gwahaniaethau mewn persbectif ac ymagwedd o fewn y mudiad eciwmenaidd er mwyn gweithio tuag at gasgliadau ac argymhellion cyffredin. Bydd hyn yn galluogi eglwysi i gydnabod a chadarnhau gwreiddiau Beiblaidd urddas dynol fel sail i drefn fodern ar gyfer hawliau dynol, ac i eiriol dros hawliau dynol a thros reol cyfraith fel rhan annatod o'u bywyd a'u tystiolaeth.

*Huw Powell-Davies*

*Mae'r datganiad gwreiddiol i'w weld yma: [Statement on the 75th Anniversary of the Universal Declaration of Human Rights \(UDHR\) | World Council of Churches \(oikoumene.org\)](https://www.oikoumene.org/en/press-releases/2023/07/2023-07-20-statement-on-the-75th-anniversary-of-the-universal-declaration-of-human-rights)*



## Eglwys Sant Samlet, Abertawe, yn derbyn Gwobr Arian Eco Eglwys



Mike Dilger a'r plant yn archwilio'r trap gwyfynod

Daeth Mike Dilger, yr ecolegydd a chyflwynydd y rhaglen *Sunday Morning Live* ar y BBC, i Eglwys Sant Samlet, Abertawe, fis Gorffennaf i gael gwybod am bwysigrwydd gofalu am natur a beth mae'r cynllun Eco Eglwys yn ei olygu i Gristnogion lleol. Cafodd y bennod ei darlledu ddydd Sul, 20 Awst, ar BBC1. Roedd y bennod yn cyfleu pwysigrwydd ailgysylltu â'r byd naturiol a thrawsnewid lleoedd er lles natur.

Mae Eglwys Sant Samlet, Llansamlet, Abertawe, newydd dderbyn Gwobr Arian Eco Eglwys ac roedd Mike yno i weld y wobwr gan cael ei chyflwyno. Cyflwynwyd y wobwr gan yr elusen gadwraeth Gristnogol A Rocha UK, ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad yr eglwys i gerdded law yn llaw â natur a gosod gofalu am y greadigaeth wrth wraidd ei holl waith.

Un o'r pethau a wnaeth eglwys Sant Samlet i ennill y wobwr arian oedd datblygu ei mynwent saith erw a'i thrawsnewid yn llecyn gwyrdd croesawgar i gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Maen nhw'n annog bywyd gwyllt brodorol trwy ddarparu blychau adar ac ystlumod, a chychod gwenyn, ac mae ysgol gynradd leol wedi helpu i osod gwesty trychfilod a llety draenogod. Aethon nhw ati i blannu planhigion sy'n denu adar, gwenyn a philpalod a dydyn nhw ddim yn tocio perthi yn ystod y tymor nythu. Mae'r ysgol gynradd Gymraeg leol a phrosiect cymunedol o'r enw Shine Cymru, sy'n cefnogi oedolion ifanc ag anghenion dysgu neu anabledau eraill, yn defnyddio'r fynwent ar gyfer eu Clwb Eco wythnosol, neu i dyfu llysiau a chynnal gweithgareddau gwirfoddol eraill.

Mae Vicky Mann, pennaeth Grŵp Eco eglwys Sant Samlet, yn esbonio,



Geraint yn derbyn y wobwr Eco Eglwys

Mae hon yn garreg filltir bwysig iawn. Rwy'n falch dros ben o'n cymuned a'r camau rydyn ni wedi'u cymryd gyda'n gilydd. Mae taith Eco Eglwys wedi bod yn addysg i ni; bu'n fodd i ni ailgysylltu â'n gweledigaeth i garu Duw a'i fyd. Bellach, mae gofalu am y greadigaeth yn treiddio trwy bob agwedd bron ar ein bywyd gyda'n gilydd. Mae'r ardd gymunedol a'r bywyd gwyllt yn ffynnu yn y fynwent yn gwneud i ni deimlo'n agosach at Dduw a rhyfeddu at ei greadigaeth, yn ogystal â gwaith ein plant o'r ysgol leol a fu'n ein helpu i ofalu am yr ardd, gwaith estyn allan i'r gymuned trwy Shine Cymru, a'r cynlluniau i greu pwll newydd yn y dyfodol.

Nod A Rocha UK yw paratoi eglwysi ac unigolion i greu symudiad a fydd yn helpu i adfer bioamrywiaeth yn lleol yn ystod y degawd tyngedfennol hwn ar gyfer yr hinsawdd. Bellach yn ei seithfed flwyddyn, mae cynllun gwobrwyo 'Eco Eglwys' yn tynnu ynghyd gymuned genedlaethol o eglwysi sy'n rhoi sylw i'r argyfwng amgylcheddol, yn defnyddio fframwaith cyffredin, pecyn cymorth ar-lein, ac yn dysgu a siarad â'i gilydd. Bellach mae dros 6,300 o Eco Eglwysi yng Nghymru a Lloegr – sy'n cwmpasu dros 12% o'r holl eglwysi yn y Deyrnas Unedig, ac mae dros 2,600 ohonynt wedi derbyn gwobr. Nod A Rocha UK, erbyn 2025, yw bod o leiaf 25% o'r eglwysi yng Nghymru a Lloegr wedi ymgysylltu â'r cynllun gwobrwyo.

Mae eglwysi wedi camu ymlaen i ofalu am natur trwy raglen Eco-Church A Rocha UK. Ddechrau'r haf, ym mis Mai, ffilmwyd Mike Pilger yn chwilio am wenyn a bywyd gwyllt yn y fynwent. Wrth i'r tymheredd saethu i fyny ar draws de Ewrop, bydd llawer un yn meddwl am bwysigrwydd gofalu am ein planed.



Grŵp plant yr ardd gymunedol

Derbyniodd plant o Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las wahoddiad i archwilio'r fynwent a rhyddhau llygod y coed a gwyfynod a dywedodd eu hathrawes, Miss Jones: 'Hyfryd oedd gweld y plant yn ailymweld â'r gwesty trychfilod oedd wedi cael ei adeiladu yn y clwb ar ôl ysgol. Roedd y plant yn llawn cyffro yn rhyddhau'r bywyd gwyllt. Ffordd hyfryd i orffen y flwyddyn yn barod am yr haf.'

Wrth ddatlu cyflawniad yr eglwys, dywedodd y Parchedig Geraint Wathen, ficer Sant Samlet:

Mae'r Salmu'n sôn mai Duw piau'r Ddaear a phopeth ynddi. Drwy'r fenter Eco Eglwys hon rydyn ni wedi bod yn dysgu beth mae'n ei olygu i ni fel eglwys, mai byd Duw yw hwn, a sut felly dylen ni ofalu amdano. Rydw i wrth fy modd gyda'r ymateb gawson ni gan yr eglwys a'r gymuned sydd wedi gwneud cymaint i sicrhau bod yr ardd gymunedol mor gynhyrchiol.

Meddai Delyth Higgins, Swyddog Eco Eglwysi yng Nghymru:

Llongyfarchiadau calonnog i eglwys Sant Samlet ar dderbyn gwobr arian haeddiannol Eco Eglwys. Maen nhw wedi cymryd camau breision ar eu taith ac wedi gwneud llawer o newidiadau i wahanol agweddau ar fywyd yr eglwys ac yn goron ar y cyfan wrth gwrs, mae'r tir sydd ganddynt, lle gall cynifer o aelodau'r gymuned wneud cyfraniad gwirioneddol o ran gofalu am y greadigaeth ar lefel ymarferol. Mae cymaint o waith i bawb ei wneud o hyd, ond yn y cyfamser, rydyn ni'n gobeithio eu bod nhw'n mwynhau datlu'r wobwr hon a gweld eraill yn cael eu hysbrydoli i ymuno â nhw a gweithredu i ofalu am y byd rhyfeddol hwn.

## Cofio'r Parchedig Emlyn Richards, Cemaes, Môn

Diwrnod trist oedd 18 Awst pan ffarweliodd y Parchedig Emlyn Richards (1931–2023) â'i anwyliaid a Cemaes, lle bu'n trigo oddi ar 1962. Un o Lŷn ydoedd, a braf oedd iddo gael cyfle ar Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan i sôn am ei annwyl frawd Harri, y baledwr a ddiddanodd gynulleidfa oedd lawer. Bu'r ddau'n cynnal nosweithiau lawer am gyfnod.

Roedd yn un o wyth o blant a da y cofiaf ei rieni gwerinol, ei dad yn ddyn y pridd a'r cwningod, a'i fam yn ddarvoudus a gofalus o'i thylwyth. Magwyd ef yn werinol grefyddol ac er iddo gael cyfle i fynychu Ysgol Uwchradd Botwnnog, bu'n rhaid gadael a threulio blynyddoedd fel gwas fferm.

Ond daeth yr alwad iddo yntau i fod yn was i'r Arglwydd Iesu a derbyniwyd ef gan y Bwrdd Ymgeiswyr ac aeth ati i ymlafurio i ennill dwy radd: BA ym Mangor a BD yn Aberystwyth. Yno y cyfarfyddais ag ef yn Hydref 1959, a dod yn gyfeillion yn syth ac i gydweithio â'n gilydd. Cawsom brofiadau gwerthfawr fel areithwyr yn y coleg, mewn pulpudau, ac yn yr ymgyrchoedd dros heddwch ac yn erbyn apartheid.


Yna daeth cyfle i frwydro am wobr areithio, Prysgyll y Cymro, a chafodd W. I. Cynwil Williams, Emlyn a minnau gyfle i roi'r Coleg Diwinyddol ar y map. Emlyn oedd y siaradwr gorau trwy golegau Cymru i gyd. Roedd ef yn feistr, a balch oeddwn o gael bod yn bartner iddo ac ym mhlith y pedwar a eisteddai am radd BD. Cafodd Emlyn, Cynwil a Cledwyn Williams gwmniaeth wych. Deuai'r galwadau i mewn i'n denu, a chofiaf fel y bu gofalaeth Dinmael, lle bu Robin Williams yn weinidog, yn awyddus i gael Emlyn. Ond Cemaes, Môn, oedd y dewis ac yno y bu hyd yr anadl olaf.

Cofiaf yn dda ei briodas yn Aber-erch gyda Dora, y nyrs a fu'n ofalus ohono ar hyd y blynyddoedd. Braf fu cael aros ar eu haelwyd yn Ael-y-bryn ac yntau erbyn hynny yn ei elfen yn gofalu ar ôl y pridd yn y capeli a chriw o ddefaid mewn cae gerllaw. Daeth yn eilun yr Ynys i gyd am iddo ddeall bywyd yr amaethwyr. Nid rhyfedd i Sioe Môn ei ethol yn Llywydd am flwyddyn, a medrai fugeilio yn y marchnadoedd fel y medrai ar yr aelwydydd.

Ymledodd ei ddylanwad drwy'r fro Gymraeg a byddai'n crwydro i Gyfarfodydd Pregethu a Sasiynau fel pregethwr graenus ac iddo ddull atyniadol o gyfathrebu'r Efengyl. Meddai ar ddychymyg y llenor, dealltwriaeth y diwinydd a gwybodaeth y Gamaliel. Daeth yn un o bregethwyr gorau ein cyfnod, a'r gynulleidfa, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn llwyr o dan ei gyfaredd. Gofalai fod Iesu Grist yn cael cyfle i ddod yn arweinydd iddynt oll.

Meddai ar ddawn ger gwely'r claf a chrwydrai'n gyson i Fangor i'r ysbytai ac i gartrefi henoed. Galwodd y gymdeithas am ei wasanaeth fel Ynad Heddwch, fel darlithydd a diddanwr na fu mo'i well. Yn wir, daeth yr Eisteddfod Genedlaethol ar ei ofyn i ddiddanu yn y Babell Lên gyda'i storïau difyr o fywyd cefn gwlad. Byrlymai o hiwmor a thyrrai pobl i gael sgwrs ag ef. Roedd pawb fel petai am ei gyfarfod.

Aeth ati i groniclo cryn lawer o hanes Sir Fôn. Myfi a gyhoeddodd ei gyfrol gyntaf, *Yr Ardal Wylt*: hanes Llanfair-yng-Nghornwy lle y cynhaliai ddsbarth WEA. Trefnwyd y lansiyo yno a thyrrodd y



wlad i'r cyfarfod gan gynnwys Aelod Seneddol Môn, Cledwyn Hughes – dau ffrind. Deuthum â 500 o gopiau yno, a gwerthwyd pob copi. Daeth ei hunangofiant a chyfrolau difyr o'i ddwylo ar botsiars y sir, ond i mi y pwysicaf ohonynt i gyd yw *Pregethws Môn* (Caernarfon, 2003). Dyma gadw ar gof a chadw fawrion y pulpud.

Ei gyfrol olaf oedd *Cofio'r Wylfa* (2021) ac ni bu ei debyg fel ymgyrchydd dewr yn erbyn arfau ac ynni niwclear. Bu'n un o arloeswyr y Gymru werdd, ddi-niwclear, y Gymru sy'n gwarchod ei chrefydd a'i hiaith a'i hetfeddiaeth.

Gwnaeth ef hynny a throsglwyddodd yr un egwyddorion i'w annwyl ferch, Ruth, kannwyll ei lygad, a chydymdeimlwn yn ddwys â hi a chyfundeb cyfan yn ymadawiad un o'r doniau pennaf a welodd ein henwad ers 1962. Torrodd ei gŵys ei hun a bu colli Dora yn rhy anodd iddo. Gwelodd unigrwydd a hiraeth mawr, a gofidiai fod y 'blychau ennaint' yn diflannu o un i un. Bu ef yn eu gwarchod ac yn cysuro'r credinwyr ar eu ffordd i wlad yr addewid. Bu'n ffyddlon i'w Waredwr.

D. Ben Rees

BBC | radio  
cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

**Sul, 10 Medi, am 7:30yb a 16:30yp**

Betsan Powys yn cyflwyno Côrddydd yn canu detholiad o emynau

**Sul, 10 Medi, am 12yp**

Oedfa dan ofal Miriam Beecroft, Machynlleth



## Taith ddirgel Bethel, Mynachlog-ddu, a Horeb, Maenclochog

Dechreuwyd ar y daith yn llawn afiaith o faes parcio Bethel prynhawn Sul, 20 Awst, gan oedi'r tu allan i blasty mawreddog Llwyn-gwair, ger Trefdraeth, a chofio i John Wesley a William Williams, Pantycelyn, fod yn aros yno droeon. Dywed traddodiad mai yn Llwyn-gwair y cyfansoddodd William Williams ei emyn sy'n dechrau â'r llinell, 'Dros y brynau tywyll niwlog'. Dywedir iddo fod yn aros yno ar ôl iddo fod yn ceisio cymodi dau deulu cwerylgar mewn seiat yn Eglwyswrw. Yn ôl y sôn roedd rhai o'r cyhuddiadau a wnaed yn ei erbyn gan rai o bobl y seiat yn gwasgu'n drwm ar ei feddwl, ac ar ôl cysgu'r nos y mae'n cyfansoddi'r emyn i fynegi ei brofiad ac yn ei adrodd wrth y bwrdd brecwast fore drannoeth.

Cam nesa'r daith oedd oedi wrth adfeilion yr eglwys a gysegrwyd i Sant Brynach yng Nghwmyreglwys ac a chwalwyd mewn storom fawr, wyllt yn 1859. Un o'r stormydd gwaethaf mewn hanes pan suddwyd dros gant o longau oddi ar arfordir gorllewin Cymru. Ar achlysur canmlwyddiant dinistrio'r eglwys hon yn 1959 y lluniodd Waldo Williams ei emyn adnabyddus i Gwmyreglwys. Fe ganwyd yr emyn gydag arddeliad a hynny'n cael ei werthfawrogi gan yr ymwelwyr syn oedd yn digwydd bod yno.

Wedi cyrraedd Wdig, derbyniodd dros ben oedd cael dishgled o de ac ymborth yn Ebeneser, a fu unwaith yn gapel gyda'r Annibynwyr, ond, wedi ei adnewyddu'n chwaethus ers sawl blwyddyn bellach, a'i drawsnewid i fod yn gartref moethus. Cofwyd am y saint ffyddlon fu'n mynychu'r oedfaon ac am y gweinidogion a godwyd i'r weinidogaeth yn Ebeneser yn ystod y ganrif ddiwethaf, sef y Parchedig Islwyn Lake a'r Parchedig Athro Stanley John.

Ymwelwyd â Raymond a Valerie Llewhelin, Bristgarn, Pen-caer, lle rhyfeddwyd at y cloc enwog ag olion ergyd dryll ynddo pan saethwyd y cloc ddydd Iau, 22 Chwefror 1797, yn ystod Glaniad y Ffrancod, pan feddylwyd bod rhywun yn cuddio yn y cloc!

Cafwyd orig dawel ym Mhen Strwmbll a'r môr yn disgleirio'n llachar yn yr haul cynnes, cyn teithio'n ofalus ar hyd y ffyrdd cul a throellog i Bwll Deri a anfarwolwyd gan Dewi Emrys, y pregethwr huawdl a'r bardd bohemaidd, a fu'n byw pan oedd yn blentyn yn Rhosyaerau gerllaw. Ganwyd Dewi Emrys yn Ngheinewydd, yn fab i'r Parchedig Thomas Emrys James a Mary Ellen. Enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn



1926 a'r gadair bedair gwaith, ac oherwydd hynny newidiwyd rheolau'r Eisteddfod i atal beirdd rhag ennill y gadair na'r goron fwy na dwywaith. (Erbyn hyn newidiwyd y rheol, a bu'r ffaith i Alan Llwyd ennill y gadair eleni yn Llŷn ac Eifionydd greu hanes, gan iddo ennill y goron a'r gadair ddwy waith o'r blaen, sef yn Nyffryn Clwyd yn 1973 ac yn Aberteifi yn 1976.) Darllenodd Ann Siriol wrth ymyl y maen coffa i Dewi Emrys ddetholiad o gerdd dafodieithol enwog Dewi Emrys i Bwll Deri.

Oedwyd y tu allan i gapel y Bedyddwyr, Harmoni, Pen-caer, i gofio'r ffaith fod y Parchedig John Young, a anwyd ym Mrynhyfryd, Mynachlog-ddu, ddydd Sul, 3 Hydref 1920 wedi'i ordeinio'n weinidog yn Harmoni yn 1951 lle bu'n gwasanaethu'n ddiwyd tan 1960. Yn ei fedydd cyntaf wedi cyrraedd Harmoni bedyddiodd Margaret Davies (Williams yr adeg honno) a Wynn Vittle – Margaret yn fam i Mererid Hopwood, Archdderwydd etholedig Gorsedd Cymru, a Wynn Vittle, a fu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr gydol ei oes. Nodwyd hefyd bod canrif union ers i'r Parchedig Glasnant Young, tad John Young, ymadael â Bethel, Mynachlog-ddu, i fynd yn weinidog i Beulah, Cwm-twrch, yng Nghwm Tawe.

Yn glo i bryn hawn llawn a llawen cafwyd pryd o fwyd ardderchog a chymdeithas felys yn y Salutation, Felindre Farchog.

*Eirian Wyn Lewis*

### Noson arddangos adnoddau a thrafod gwaith plant ac ieuenctid

Nos Fercher, 13 Medi 2023, cynhelir arddangosfa o adnoddau yng Nghapel Rhos-y-gad, Llanfair-pwll, Môn rhwng 7 a 9 o'r gloch.

Bydd Aled Davies o'r Cyngor Ysgolion Sul yno i drafod a chynghori ar faterion gwaith plant, a hefyd o ran addoliad ac adnoddau i gynnal oedfa ar y Sul. Yn ogystal, bydd dewis helaeth o adnoddau ar gael i'w prynu. Dewch ynghyd i drafod posibiladau ac i rannu eich profiadau o ran cynnal ysgolion Sul. Croeso cynnes i bawb i daro i mewn unrhyw bryd rhwng 7 a 9 o'r gloch.

### Adnoddau Cymraeg i nodi 60 mlynedd ers araith 'Mae Gen i Freuddwyd' Martin Luther King

Fe ddaeth adnoddau defnyddiol i law yn y Gymraeg gan yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) er mwyn ein helpu fel eglwys i nodi trigain mlynedd ers araith fawr Dr Martin Luther King Jr. ddiwedd Awst eleni.

Er i chwe degawd fynd heibio ers yr araith chwedlonol, nid yw amser na'r digwyddiadau ers hynny wedi lleihau ei dylanwad na'i hetifeddiaeth. Erys araith Dr King yn alwad i'n hysbrydoli i weithio dros fyd mwy cyfiawn.

Mewn erthygl ar wahân, mae Richard Reddie, Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant CTBI, yn rhoi [trosolwg o araith ac etifeddiaeth y Parch Ddr Martin Luther King Jr.](https://ctbi.org.uk/60th-anniversary-of-martin-luther-kings-i-have-a-dream/) Wele'r ddolen isod at yr adnoddau dwyieithog i'ch helpu i nodi'r pen-blwydd arbennig hwn eleni.

<https://ctbi.org.uk/60th-anniversary-of-martin-luther-kings-i-have-a-dream/>



# Tân ysol?



Llun: stockadobe.com

Mae'r rhaid iddo fod yn 'fore byth mi gofiaf' i Moses. Yno ar gyrion yr anialwch gwelodd 'berth yn llogsi heb gael ei difa'. Nid perth yn llogsi dan bwysau blodau euraid yn ymsymud yn y gwynt mohoni. Ac nid tân cyffredin mohono chwaith. Oherwydd, er i'w fflam losgi'n danbaid, yn ôl yr hanes, ni ddifawyd yr hyn y daeth y tân i gyswllt ag ef!

Mae'r cyfarfyddiad yn ddarlun trawiadol a chofiadwy hyd yn oed i ni, gannoedd o flynyddoedd yn ddiweddarach. Nid rhyfedd i'r darlun gydio yn nychymyg eglwys wrth iddynt geisio crynhoi rhyfeddod eu bodolaeth.

Ar draws y byd bydd gan nifer o eglwys Presbyteriaid eu trefn logo sy'n cynnwys portread o'r 'berth yn llogsi heb ei difa'.

Er bod logo diweddar [Eglwys Bresbyteriaid yr Alban](#) yn dangos croes Andreas wedi ei hychwanegu i'r cefndir, yn ganolog i'r logo ceir llun o berth yn llogsi. O dan y darlun o'r berth dangosir yr arwyddair *Nec tamen consumebatur* ('heb ei ddifa'). Dewis bwriadol, yn ddiamau, oedd bod yr arwyddair Lladin wedi ei gymryd o gyfieithiad Lladin gan Tremellius a Junius yn 1597 ac nid o Fwlgat yr Eglwys Gatholig Rufeinig.

Er bod y fersiwn presennol yn ddyluniad cymharol ddiweddar, defnyddiwyd y llun a'r logo o'r berth yn llogsi, ynghyd â'r arwyddair, gan yr eglwys ers yr ail ganrif ar bymtheg. Cafodd y darlun a'r

arwyddair eu defnyddio heb benderfyniad unrhyw Gymanfa gan argraffydd o'r enw George Mossman o bosib fel mynegiant o ddiolchgarwch bod y rhyfel rhwng y Cyfamodwyr (*Covenanters*) a'r frenhiniaeth wedi dod i ben gyda dyfodiad William a Mari i'r orsedd yn Lloegr yn 1688.

Er bod darlun nid annhebyg yn cael ei ddefnyddio gan [Eglwys Bresbyteriaid Iwerddon](#), y tro hwn ceir y geiriau '*Ardens sed virens*' sy'n golygu, 'yn llogsi ond yn ffynnu'.

Gwelai John Calfin y darlun o'r berth yn llogsi heb ei difa fel darlun neu arwydd o gadernid ac o fuddugoliaeth yr efengyl. Byddai'r eglwys, fel yr efengyl ei hun, yn wynebu profedigaethau tanllyd, ond ni châi ei difa byth gan ryferthwy na chynllwynion Uffern ei hun.

Diau y byddem ninnau, ynghyd ag eglwys ar draws y byd, yn hoffi meddwl amdanom ein hunain fel eglwys tanbaid a chynnes oedd yn llawn o Dduw ac na fedrent gael eu difa. Hoffem, bob un ohonom, berthyn i gynulleidfaoedd oedd yn llogsi ac yn ffynnu.

Ond gŵyr pob un ohonom a welodd luniau o'r tanau dychrynlyd a welwyd ar ynysoedd Môr y Canoldir yr haf hwn nad cysur neu wres pleserus yw dyfodiad tân bob amser.

A phan ddaw tân presenoldeb Duw yn agos atom, naill ai mewn oedfa gyhoeddus neu drwy argyhoeddiad dirgel o'n pechodau,

gwyddom fod ei bresenoldeb fel tân ysol yn llogsi, yn difa, yn profi popeth drwy ei danbeidrwydd difaol ac iachusol ei agosrwydd.

Dyfodiad y tân hwn i'w galon daniodd weinidogaeth gyhoeddus Howel Harris. Gallwn ei ddychmygu yn Eglwys Llangasty Tal-y-llyn ym Mehefin 1735 yn gweddio. Ac wrth weddio, meddai, 'Yn sydyn, teimlwn fy nghalon yn toddi o'm mewn fel cwyr o flaen y tân, o gariad at Dduw fy lachawdwr. Nid cariad a thangnefedd yn unig a deimlwn, ond hiraeth am gael ymddatod a bod gyda Christ. Yna daeth cri i'm henaid nas gwyddwn erioed amdano o'r blaen, "Abba, Dad!"

Yn ôl Bianco da Siena, hiraeth ein calonnau yw bod Duw yn ei 'Ysbryd cariad mawr' yn ymweld â llwch y llawr ac yn '[c]ynnuau'r fflam yn hon, dy newydd drigfan' (*Caneuon Ffydd*, 599). Yr un pryd, gwyddom y try cwmni'r sanctaidd un 'nwydau meidrol ddyn / yn llwch a lludw yn ei danllyd fflamau'. Er gwaethaf y cyffyrddiad poenus hwn a dyfodiad dagrau, sy'n fynegiant o'n cywilydd yn ei bresenoldeb am ein gwendidau a galar am ein pechod, dyhead pob Cristion yw cael bod 'yn deml ei hun / lle trig yr Ysbryd Sanctaidd yn oes oesoedd'.

Duw o'i ras a adnewydd ynom hiraeth am gael profi tanbeidrwydd arswydus ei bresenoldeb a grym cynhesol ei Ysbryd i'n bywhau.

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaid Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)  
[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)